**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

25 Mai 2018

Annwyl Mark

**Llywodraethiant yn y DU ar ôl Brexit – cysylltiadau rhynglywodraethol**

Diolch eto am ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 23 a 30 Ebrill. Roedd y ddwy sesiwn yn addysgiadol, ac roedd y trafodaethau yn gymorth inni wrth inni baratoi ein hadroddiad ar *Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).*

Byddwch yn cofio ein bod wedi trafod cysylltiadau rhynglywodraethol yn y dyfodol ac adroddiad y Pwyllgor ar *lywodraethiant yn y DU ar ôl Brexit* yn ystod y ddau gyfarfod. Nododd Argymhelliad 9 ein hadroddiad:

> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gytundeb cysylltiadau rhynglywodraethol gyda'r Pwyllgor hwn er mwyn cefnogi gwaith craffu ar weithgaredd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Yn ystod y ddadl a gafwyd ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Chwefror, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru yn hapus i drafod cynnwys cytundeb ar gysylltiadau rhynglywodraethol â ni. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru, wrth wneud hynny, yn dymuno ystyried y cytundeb rhwng Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

Yn ein cyfarfod ar 30 Ebrill, gwnaethoch ailddatgan parodrwydd Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Pwyllgor hwn wrth ddatblygu'r trefniadau y bydd eu hangen ar ran y ddeddfwrfa i oruchwylio'r camau a fydd yn deillio o'r cytundeb rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a sefydlu fframweithiau cyffredin.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Fel cam cyntaf yn y broses hon, credaf y byddai o gymorth pe bawn yn cwrdd er mwyn trafod sut y gallwn gymryd y gwaith hwn yn ei flaen. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi pryd y byddai hyn yn gyfleus.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.